



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2004 Rhif 553 (Cy.56)**

**2004 No. 553 (W.56)**

**BWYD, CYMRU**

**FOOD, WALES**

**Rheoliadau Cynhyrchion Jam a  
Chynhyrchion Tebyg (Cymru)  
2004**

**The Jam and Similar Products  
(Wales) Regulations 2004**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn gweithredu Cyfarwydddeb y Cyngor 2001/113/EC ynghylch jamiau ffrwythau, jeliâu a marmaledau a phiwri castan a felyswyd a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl (OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.67) ac maent yn cynnwys mesurau cenedlaethol hefyd. Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg 1981, fel y'u diwygiwyd, mewn perthynas â Chymru.

These Regulations, which apply to Wales, implement Council Directive 2001/113/EC concerning fruit jams, jellies and marmalades and sweetened chestnut purée intended for human consumption (OJ No. L10, 12.1.2002, p.67) and also contain national measures. They revoke and replace the Jam and Similar Products Regulations 1981, as amended, in relation to Wales.

Mae'r Rheoliadau -

The Regulations -

- (a) yn rhagnodi diffiniadau a disgrifiadau neilltuedig ar gyfer rhai cynhyrchion jam penodedig (rheoliad 2 ac Atodlenni 1 a 2). Y cynhyrchion a ddisgrifir yn y cofnodion sydd wedi'u rhifo 1 i 7 yn Atodlen 1 yw'r rhai y mae'r Gyfarwydddeb yn gymwys iddynt tra bod y rhai a bennir yn y cofnodion sydd wedi'u rhifo 8 i 11 yn Atodlen 1 wedi'u cynnwys fel mesurau cenedlaethol;
- (b) yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau lle mae'r Rheoliadau yn gymwys (rheoliad 3);
- (c) yn cyfyngu'r defnydd ar ddisgrifiadau neilltuedig i'r cynhyrchion jam penodedig a'r cynhyrchion tebyg y maent yn berthnasol iddynt (rheoliad 4);
- (ch) yn rhagnodi gofynion labelu at gyfer cynhyrchion o'r fath (rheoliad 5);
- (d) yn gwneud darpariaeth ynglŷn â dull marcio a labelu cynhyrchion jam penodedig a chynhyrchion tebyg penodedig (rheoliad 6);

- (a) prescribe definitions and reserved descriptions for certain specified jam products (regulation 2 and Schedules 1 and 2). The products described in the entries numbered 1 to 7 of Schedule 1 are those in relation to which the Directive applies whilst those specified in the entries numbered 8 to 11 in Schedule 1 are included as national measures;
- (b) provide for the circumstances in which the Regulations apply (regulation 3);
- (c) restrict the use of reserved descriptions to the specified jam and similar products to which they relate (regulation 4);
- (d) prescribe labelling requirements for such products (regulation 5);
- (e) make provision as to the manner of marking and labelling specified jam and similar products (regulation 6);

- (dd) yn pennu cosb ar gyfer torri'r Rheoliadau, awdurdodau gorfodi ac, yn unol ag Erthyglau 2 a 3 o Gyfarwydddeb y Cyngor 89/397/EEC ar reolaeth swyddogol ar fwydydd (OJ Rhif L186, 30.6.89, t.23) a'r Cytundeb Ardal Economaidd Ewropeaidd, amddiffyniad ynglŷn ag allforion (rheoliadau 7 ac 8);
- (e) yn cymhwyso amryw o ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (rheoliad 9);
- (f) yn dirymu'r Rheoliadau blaenorol ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol a darpariaeth drosiannol (rheoliadau 10 ac 11).

Mae arfarniad rheoliadol ar gyfer y Rheoliadau hyn wedi'i baratoi yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a rhoddwyd copi ohono yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copiau o'r Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.

- (f) specify a penalty for contraventions of the Regulations, enforcement authorities and, in accordance with Articles 2 and 3 of Council Directive 89/397/EEC on the official control of foodstuffs (OJ No. L186, 30.6.89, p.23) and the European Economic Area Agreement, a defence in relation to exports (regulations 7 and 8);
- (g) apply various provisions of the Food Safety Act 1990 (regulation 9);
- (h) revoke the previous Regulations and make consequential amendments and transitional provision (regulations 10 and 11).

A Regulatory appraisal for these Regulations has been prepared pursuant to section 65 of the Government of Wales Act 1998 and placed in the Library of the National Assembly for Wales. Copies may be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EW.

**2004 Rhif 553 (Cy.56)****2004 No. 553 (W.56)****BWYD, CYMRU****FOOD, WALES****Rheoliadau Cynhyrchion Jam a  
Chynhyrchion Tebyg (Cymru)  
2004****The Jam and Similar Products  
(Wales) Regulations  
2004***Wedi'u gwneud* 2 Mawrth 2004*Made* 2nd March 2004*Yn dod i rym* 5 Mawrth 2004*Coming into force* 5th March 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(a) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b), a chan ei fod wedi rhoi sylw, yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac wedi ymgynghori fel y mae'n ofynnol o dan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 o Senedd Ewrop a'r Cyngor(c) sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith fwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred by sections 16(1)(e), 17(1), 26(1) and (3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(a) and now vested in it(b) and having had regard, in accordance with section 48(4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency, and after consultation both as required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council(c) laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety and in accordance with section 48(4) and (4B) of the said Act, hereby makes the following Regulations:

**Teitl, cymhwyso a chychwyn**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2004, maent yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 5 Mawrth 2004.

**Title, application and commencement**

1. These Regulations may be cited as the Jam and Similar Products (Wales) Regulations 2004, they apply to Wales only and come into force on 5th March 2004.

**Dehongli**

2. -(1) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "Aelod-wladwriaeth" ("*Member State*") yw Gwladwriaeth sy'n aelod o'r Gymuned Ewropeaidd;

mae i "awdurdod bwyd" yr un ystyr â "*food*

**Interpretation**

2.-(1) In these Regulations -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990;

"the 1996 Regulations" ("*Rheoliadau 1996*") means the Food Labelling Regulations 1996(d);

(a) 1990 p.16.

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.

(a) 1990 c.16.

(b) Functions of the Secretary of State under the Food Safety Act 1990, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1.

(d) S.I. 1996/1499.

*authority*" yn adran 5(1A) a (3)(a) a (b) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "castan" ("*chestnut*") yw ffrwyth y gastanwydden (*Castanea sativa*);

ystyr "Cyfarwyddeb 2001/113" ("*Directive 2001/113*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/113/EC(a) ynglŷn â jamiau ffrwythau, jeliâu a marmaledau a phiwrî castan a felyswyd a fwriedir ar gyfer eu bwytia gan bobl;

mae i "cylchrediad rhydd" yr un ystyr â "*free circulation*" yn Erthygl 24 o'r Cytuniad a sefydlodd y Gymuned Ewropeaidd;

mae i "cynhwysyn" yr ystyr a briodolir i "*ingredient*" yn Rheoliadau 1996;

ystyr "cynhwysyn ychwanegol a ganiateir" ("*permitted additional ingredient*") yw cynhwysyn a ddisgrifir ym mharagraff 1 o Atodlen 2 ac sy'n cael ei ddefnyddio fel a bennir yn y paragraff hwnnw;

ystyr "cynnyrch jam penodedig neu gynnyrch tebyg penodedig" ("*specified jam or similar product*"), yn ddarostyngedig i baragraff (2), yw unrhyw gyfansoddiad bwyd a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 1 o'i darllen ynghyd â'r Nodiadau ynglŷn â'r Atodlen honno;

ystyr "Cytundeb AEE" ("*EEA Agreement*") yw'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd(b) a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992 fel y'i haddaswyd gan y Protocol(c) a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "defnyddiwr olaf" ("*ultimate consumer*") yw unrhyw berson sy'n prynu ac eithrio -

- (a) er mwyn ailwerthu;
- (b) at ddibenion sefydliad arlwyo; neu
- (c) at ddibenion busnes gweithgynhyrchu;

ystyr "disgrifiad neilltuedig" ("*reserved description*"), o ran unrhyw gynnyrch jam penodedig neu gynnyrch tebyg penodedig yw unrhyw ddisgrifiad a bennir ynghylch y cynnyrch hwnnw yng ngholofn 1 o Atodlen 1 o'i darllen ynghyd â'r Nodiadau ynglŷn â'r Atodlen honno;

ystyr "echdynnyn dyfrllyd ffrwythau" ("*aqueous extract of fruit*") yw echdynnyn dyfrllyd ffrwythau sydd, yn ddarostyngedig i'r colledion sy'n digwydd o reidrwydd mewn gweithgynhyrchu priodol, yn

"aqueous extract of fruit" ("*echdynnyn dyfrllyd ffrwythau*") means the aqueous extract of fruit which, subject to the losses necessarily occurring in proper manufacturing, contains all the water-soluble constituents of the fruit used;

"catering establishment" ("*sefydliad arlwyo*") means a restaurant, canteen, club, public house, school, hospital or similar establishment (including a vehicle or a fixed or mobile stall) where, in the course of a business, food is prepared for delivery to the ultimate consumer and is ready for consumption without further preparation;

"chestnut" ("*castan*") means the fruit of the sweet chestnut tree (*Castanea sativa*);

"Directive 2001/113" ("*Cyfarwyddeb 2001/113*") means Council Directive 2001/113/EC(a) relating to fruit jams, jellies and marmalades and sweetened chestnut purée intended for human consumption;

"EEA Agreement" ("*Cytundeb AEE*") means the Agreement on the European Economic Area(b) signed at Oporto on 2nd May 1992 as adjusted by the Protocol(c) signed at Brussels on 17th March 1993;

"EEA State" ("*Gwladwriaeth AEE*") means a State which is a Contracting Party to the EEA Agreement;

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") has the same meaning as in section 5(1A) and (3)(a) and (b) of the Food Safety Act 1990;

"free circulation" ("*cylchrediad rhydd*") has the same meaning as in Article 24 of the Treaty establishing the European Community;

"fruit" ("*ffrwyth*") means fresh, sound fruit, free from deterioration, containing all of its essential constituents and sufficiently ripe for use, after cleaning, removal of blemishes, topping and tailing, and includes ginger, tomatoes, the edible parts of rhubarb stalks, carrots, sweet potatoes, cucumbers, pumpkins, melons and watermelons;

"fruit pulp" ("*mwydion ffrwythau*") means the edible part of the whole fruit, with or without peel, skin, seeds or pips, as appropriate, which may have been sliced or crushed but which has not been reduced to a purée;

"fruit purée" ("*piwrî ffrwythau*") means the edible part of the whole fruit, with or without peel, skin, seeds or pips, as appropriate, which has been reduced to a purée by being sieved or subjected to a similar process;

---

(a) OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.67.

(b) OJ Rhif L1, 3.1.94, t.1.

(c) OJ Rhif L1, 3.1.94, p.571.

---

(a) OJ No. L10, 12.1.2002, p.67.

(b) OJ No. L1, 3.1.94, p.1.

(c) OJ No. L1, 3.1.94, p.571.

cynnwys pob un o gyfansoddion y ffrwythau a ddefnyddiwyd sy'n doddadwy mewn dŵr;

ystyr "ffrwyth" ("*fruit*") yw ffrwyth ffres ac iach, sy'n rhydd rhag dirywiad, sy'n cynnwys pob un o'i gyfansoddion hanfodol ac sy'n ddigon aeddfed i'w ddefnyddio, ar ôl ei lanhau, cael gwared ar unrhyw frychau sydd arno, torri'i ben a'i goesyn, ac mae'n cynnwys sinsir, tomatos, y rhannau bwytadwy o goesynnau rhiwbob, moron, tatws melys, cucumerau, pwmpenni, melonau a melonau dwr;

ystyr ffrwythau gwinwydd ("*vine fruits*") yw mysgatelau, resins, syltanau, neu gyrains;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys cynnig i'w werthu neu ddangos i'w werthu ac mae'n cynnwys ei gael mewn meddiant i'w werthu, a dehonglir "gwerthu" yn unol â hynny;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA State*") yw Gwladwriaeth sy'n Barti Contractiol i'r Cytundeb AEE;

mae i "label", "labeli" a "labelu" yr ystyr a briodolir i "*labelling*" yn Rheoliadau 1996;

ystyr "melysydd a ganiateir" ("*permitted sweetener*") yw unrhyw felysydd i'r graddau y mae ei ddefnyddio yn y cynnyrch jam neu'r cynnyrch tebyg penodedig wedi'i ganiatáu yn Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995(a);

ystyr "mwydion ffrwythau" ("*fruit pulp*") yw'r rhan fwyadwy o ffrwyth cyfan, gyda neu heb y pilion, y croen, yr hadau neu'r dincod, fel y bo'n briodol, a'r ffrwyth hwnnw wedi'i sleisio neu wedi'i wasgu efallai ond heb ei leihau i biwrî;

mae "paratoi" ("*preparation*") yn cynnwys gweithgynhyrchu ac unrhyw ffurf ar brosesu neu drin a rhaid dehongli "a baratowyd" yn unol â hynny;

ystyr "piwrî ffrwythau" ("*fruit purée*") yw'r rhan fwyadwy o ffrwyth cyfan, gyda neu heb y pilion, y croen, yr hadau neu'r dincod, fel y bo'n briodol, a'r ffrwyth hwnnw wedi'i leihau i biwrî drwy gael ei hidlo neu drwy beri iddo fynd drwy broses debyg;

ystyr "Rheoliadau 1996" ("*the 1996 Regulations*") yw Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(b);

ystyr "sefydliad arlwyo" ("*catering establishment*") yw bwyty, ffreutur, clwb, tafarn, ysgol, ysbyty neu sefydliad tebyg (gan gynnwys cerbyd neu stonddin sefydlog neu symudol) os yw bwyd, wrth gynnal busnes, yn cael ei baratoi i'w gyflenwi i'r defnyddiwr olaf ac yn barod i'w fwyta heb waith paratoi pellach;

ystyr "sinsir" ("*ginger*") yw gwreiddyn bwytadwy'r planhigyn sinsir mewn cyflwr ffres neu wedi'i breserfio ac y gall fod wedi'i sychu neu wedi'i

"ginger" ("*sinsir*") means the edible root of the ginger plant in a fresh or preserved state and may be dried or preserved in syrup;

"ingredient" ("*cynhwysyn*") has the meaning assigned to it by the 1996 Regulations;

"labelling" ("*label*", "*labeli*", "*labelu*") has the meaning assigned to it by the 1996 Regulations;

"Member State" ("*Aelod-wladwriaeth*") means a State which is a member of the European Community;

"permitted additional ingredient" ("*cynhwysyn ychwanegol a ganiateir*") means an ingredient described in paragraph 1 of Schedule 2 which is used as specified in that paragraph;

"permitted sweetener" ("*melysydd a ganiateir*") means any sweetener insofar as its use is permitted in the specified jam or similar product by the Sweeteners in Food Regulations 1995(a);

"preparation" ("*paratoi*") includes manufacture and any form of processing or treatment and "prepared" shall be construed accordingly; and

"reserved description" ("*disgrifiad neilltuedig*"), as regards any specified jam or similar product means any description specified in relation to that product in column 1 of Schedule 1 as read with the Notes relating to that Schedule;

"sell" ("*gwerthu*") includes offer or expose for sale and includes have in possession for sale, and "sale" shall be construed accordingly;

"specified jam or similar product" ("*cynnyrch jam neu gynnyrch tebyg penodedig*") means, subject to paragraph (2), any composition of food specified in column 2 of Schedule 1 as read with the Notes relating to that Schedule;

"sugars" ("*siwgrau*") means a sugar product defined in the Annex to Council Directive 2001/111/EC relating to certain sugars intended for human consumption(b), fructose syrup, sugar extracted from fruit or brown sugar or any combination thereof;

"ultimate consumer" ("*defnyddiwr olaf*") means any person who buys otherwise than -

- (a) for the purpose of resale,
- (b) for the purposes of a catering establishment, or
- (c) for the purposes of a manufacturing business; and

"vine fruits" ("*ffrwythau gwinwydd*") means muscatels, raisins, sultanau or currants.

(2) A food described in column 2 of any items 1 to 7 of Schedule 1 is not a specified jam or similar product

(a) O.S. 1995/3123.

(b) O.S. 1996/1499.

(a) S.I. 1995/3123.

(b) OJ No. L10, 12.1.2002, p.53.

breserfio mewn surop; ac

ystyr "siwgrau" ("*sugars*") yw cynnyrch siwgr a ddiffinnir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Cyngor 2001/111/EC ynglŷn â siwgrau penodol a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl(a) surop ffrwctos, siwgr a echdynnwyd o ffrwythau neu siwgr brown neu unrhyw gyfuniad ohonynt.

(2) Nid yw bwyd a ddisgrifir yng nghlofn 2 unrhyw un o eitemau 1 i 7 yn Atodlen 1 yn gynnwys jam penodedig na'n gynnwys tebyg penodedig o fewn ystyr y Rheoliadau hyn os -

- (a) y mae'n cynnwys unrhyw gynhwysyn ychwanegol ac eithrio cynhwysyn ychwanegol a ganiateir;
- (b) y parwyd i unrhyw ddeunydd crai, y mae paragraffau 2 i 4 o Atodlen 2 yn cyfeirio ato, ac a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r bwyd hwnnw, gael unrhyw driniaeth heblaw triniaeth a awdurdodir yn y paragraffau hynny.

(3) Mae i unrhyw ymadrodd arall sy'n cael ei ddefnyddio yn y Rheoliadau hyn ac y mae'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn cael ei ddefnyddio yng Nghyfarwyddeb 2001/113 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn â'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Gyfarwyddeb honno.

### Cwmpas y Rheoliadau

3.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i gynhyrchion jam penodedig a chynhyrchion tebyg penodedig, a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n barod i'w cyflwyno i'r defnyddiwr olaf neu i sefydliad arlwyyo.

(2) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw gynnwys jam penodedig neu gynnwys tebyg penodedig a fwriedir ar gyfer gweithgynhyrchu mân gynnwys popty, crystiau neu fisgedi.

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw gynnwys sy'n dwyn y disgrifiad a nodir yn eitemau 8 i 11 o golofn 1 Atodlen 1 ac -

- (a) y daethpwyd ag ef i mewn i Gymru -
  - (i) o Wladwriaeth AEE (ac eithrio'r Deyrnas Unedig), neu
  - (ii) o ran arall o'r Deyrnas Unedig, lle cafodd ei werthu'n gyfreithlon, ar ôl cael ei gynhyrchu'n gyfreithlon mewn Gwladwriaeth AEE; neu
- (b) y daethpwyd ag ef i mewn i Gymru -
  - (i) o Aelod-wladwriaeth (ac eithrio'r Deyrnas Unedig), neu
  - (ii) o ran arall o'r Deyrnas Unedig, lle cafodd ei werthu'n gyfreithlon, ar ôl cael ei gynhyrchu'n gyfreithlon mewn Aelod-wladwriaeth, neu lle'r oedd mewn

within the meaning of these Regulations if -

- (a) it contains any additional ingredient other than a permitted additional ingredient;
- (b) any raw material, to which paragraphs 2 to 4 of Schedule 2 refer, used in the preparation of that food has been subjected to any treatment other than a treatment authorised by those paragraphs.

(3) Any other expression used both in these Regulations and in Directive 2001/113 has the same meaning in these Regulations as in that Directive.

### Scope of Regulations

3.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3) these Regulations apply to specified jam or similar products, intended for human consumption and ready for delivery to the ultimate consumer or to a catering establishment.

(2) These Regulations do not apply to any specified jam or similar product intended for the manufacture of fine bakery wares, pastries or biscuits.

(3) These Regulations do not apply in respect of any product bearing the description set out at items 8 to 11 of column 1 of Schedule 1 which is -

- (a) brought into Wales from -
  - (i) an EEA State (other than the United Kingdom), or
  - (ii) another part of the United Kingdom, in which it was lawfully sold, having been lawfully produced in an EEA State; or
- (b) brought into Wales from -
  - (i) a Member State (other than the United Kingdom), or
  - (ii) another part of the United Kingdom, in which it was lawfully sold, having been lawfully produced in a Member State, or in which it was in free circulation and

---

(a) OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.53.

cylchrediad rhydd ac yn cael ei werthu'n gyfreithlon.

lawfully sold.

### **Disgrifiadau neilltuedig**

4. Ni chaiff neb werthu unrhyw fwyd â label, p'un a yw wedi'i gysylltu â'r deunydd lapio neu'r cynhwysydd neu wedi'i argraffu arno neu beidio, a'r label hwnnw'n dwyn arno, yn ffurfio neu'n cynnwys unrhyw ddisgrifiad neilltuedig neu unrhyw ddisgrifiad sy'n deillio ohono neu unrhyw air neu ddisgrifiad sy'n sylweddol debyg iddo oni bai -

- (a) bod bwyd o'r fath yn gynnyrch jam neu gynnyrch tebyg penodedig y mae'r disgrifiad neilltuedig yn berthnasol iddo;
- (b) bod disgrifiad, disgrifiad sy'n deillio ohono neu air o'r fath yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun o'r fath er mwyn dangos yn bendant neu drwy oblygiad clir mai dim ond cynhwysyn yn y bwyd hwnnw yw'r sylwedd y mae'n berthnasol iddo; neu
- (c) bod disgrifiad o'r fath yn cael ei ddefnyddio yn ychwanegol at enw'r bwyd ac yn unol ag arferion sy'n cael eu defnyddio i ddynodi cynhyrchion eraill nad oes modd drysu rhyngddynt a'r rhai sydd wedi'u diffinio yng ngholofn 2 o Atodlen 1.

### **Labelu a disgrifio cynhyrchion jam penodedig**

5.-(1) Heb ragfarnu cyffredinolrwydd Rhan II o Reoliadau 1996, ni chaiff neb werthu unrhyw gynnyrch jam penodedig neu gynnyrch tebyg penodedig onid yw wedi'i farcio neu wedi'i labelu â'r manylion canlynol -

- (a) disgrifiad neilltuedig y cynnyrch;
- (b) pan fydd unrhyw gynnyrch jam penodedig neu gynnyrch tebyg penodedig yn cynnwys mwy na 10 miligram fesul cilogram o sylffwr deuocsid gweddilliol, yna, yn ychwanegol at unrhyw fanylyn y mae'n ofynnol ei nodi mewn rhestr gynhwysion o dan Reoliadau 1996, rhaid nodi'r cynnwys gweddilliol hwnnw yn y rhestr gynhwysion yn ôl y ganran yn ôl pwysau o'r gweddillion yn y cynnyrch yn "sulphur dioxide".

(2) Heb ragfarnu cyffredinolrwydd Rhan II o Reoliadau 1996, ni chaiff neb werthu unrhyw gynnyrch a bennir yn eitemau 1-7 o Atodlen 1 onid yw wedi'i farcio neu wedi'i labelu â'r manylion canlynol -

- (a) yn achos -
  - (i) cynnyrch a baratowyd o un math o ffrwyth, mynegiad o'r math hwnnw o ffrwyth;
  - (ii) cynnyrch a baratowyd o ddau fath o ffrwyth, mynegiad o'r mathau hynny o ffrwyth yn nhrefn ddisgynnol pwysau'r mwydion ffrwythau, y piwri ffrwythau, y sudd ffrwythau, y pilion ffrwythau a'r

### **Reserved descriptions**

4. No person shall sell any food with a label, whether or not attached to or printed on the wrapper or container, which bears, comprises or includes any reserved description or any derivative thereof or any word or description substantially similar thereto unless -

- (a) such food is the specified jam or similar product to which the reserved description relates;
- (b) such description, derivative or word is used in such a context as to indicate explicitly or by clear implication that the substance to which it relates is only an ingredient of that food; or
- (c) such description is used in addition to the name of the food and in accordance with practices used to designate other products which cannot be confused with those defined in column 2 of Schedule 1.

### **Labelling and description of specified jam products**

5.-(1) Without prejudice to the generality of Part II of the 1996 Regulations, no person shall sell any specified jam or similar product unless it is marked or labelled with the following particulars -

- (a) the reserved description of the product;
- (b) where any specified jam or similar product has a residual sulphur dioxide content of more than 10 milligrams per kilogram, then, in addition to any particular required to be identified in a list of ingredients by the 1996 Regulations, that residual content shall be identified in the list of ingredients according to the percentage by weight of the residue in the product as "sulphur dioxide".

(2) Without prejudice to the generality of Part II of the 1996 Regulations, no person shall sell any product specified at items 1-7 of Schedule 1 unless it is marked or labelled with the following particulars -

- (a) in the case -
  - (i) of a product prepared from a single type of fruit, an indication of that type of fruit;
  - (ii) of a product prepared from two types of fruit, an indication of those types of fruit in descending order of the weight of the fruit pulp, fruit purée, fruit juice, fruit peel and aqueous extract of fruit used in the

echdynnyn dyfrllyd ffrwythau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cynnyrch; a

- (iii) cynnyrch a baratowyd o dri math o ffrwyth neu fwy, mynegiad o'r mathau hynny o ffrwyth yn nhrefn ddisgynnol pwysau'r mwydion ffrwythau, y piwri ffrwythau, y pilion ffrwythau a'r echdynnyn dyfrllyd ffrwythau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cynnyrch neu fel arall y geiriau "mixed fruit" neu eiriad tebyg neu nifer y mathau o ffrwyth a ddefnyddiwyd i baratoi'r cynnyrch hwnnw;
- (b) mynegiad o'r gyfran o ffrwythau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cynnyrch ar y ffurf "prepared with Xg of fruit per 100 g", gan fewnosod yn lle "X" y maint mewn gramau o ffrwythau y deilliodd y mwydion ffrwythau, y piwri ffrwythau, y sudd ffrwythau, y pilion ffrwythau a'r echdynnyn dyfrllyd ffrwythau a ddefnyddiwyd am bob can gram o'r cynnyrch gorffenedig; ac
- (c) ac eithrio pan fydd honiad ynglŷn â maeth yn cael ei wneud am y cynnyrch siwgr a bod y cynnyrch wedi'i farcio neu wedi'i labelu, o ran cynnwys siwgr, â'r label maethiad rhagnodedig fel a nodwyd yn Atodlen 7 i Reoliadau 1996, mynegiad o gyfanswm y cynnwys siwgr ar y ffurf "total sugar content: Yg per 100 g", gan fewnosod yn lle "Y" y cynnwys mewn gramau o solidau toddadwy ym mhob can gram o'r cynnyrch, fel y penderfynir arno drwy refractomedr ar 20°C, a'r cynnwys a ddangosir yn gywir hyd at +/- 3 gradd refractometrig.

(3) Rhaid i'r manylion y mae'n ofynnol marcio neu labelu'r cynnyrch â hwy yn unol â pharagraff 2(b) ac (c) ymddangos ar labeli'r bwyd yn yr un cylch golwg ag enw'r cynnyrch ac mewn arwyddnodau y gellir eu gweld yn eglur.

### **Dull marcio neu labelu**

6. Bydd Rheoliadau 35, 36(1) a (5) a 38 o Reoliadau 1996 (sy'n ymwneud â dull marcio neu labelu bwyd) yn gymwys i'r manylion y mae'n ofynnol marcio neu labelu cynnyrch jam penodedig neu gynnyrch tebyg penodedig â hwy o dan reoliad 5 o'r Rheoliadau hyn fel petaent yn fanylion y byddai'n ofynnol marcio neu labelu bwyd â hwy o dan Reoliadau 1996.

### **Cosbi a gorfodi**

7.-(1) Bydd unrhyw berson sy'n torri rheoliad 4 neu 5 o'r Rheoliadau hyn neu'n methu cydymffurfio â hwy yn euog o dramgwydd a bydd yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

preparation of the product; and

- (iii) of a product prepared from three or more types of fruit, an indication of those types of fruit in descending order of the weight of the fruit pulp, fruit purée, fruit peel and aqueous extract of fruit used in the preparation of the product or alternatively the words "mixed fruit" or similar wording or the number of types of fruit used in the preparation of the product;
- (b) an indication of the proportion of fruit used in the preparation of the product in the form "prepared with Xg of fruit per 100 g", there being inserted in place of "X" the quantity in grams of fruit from which the fruit pulp, fruit purée, fruit juice, fruit peel and aqueous extract of fruit used for every hundred grams of the finished product are derived; and
- (c) except where a nutritional claim as regards sugar content is made and the product is marked or labelled, as regards sugar content, with the prescribed nutrition labelling as set out in Schedule 7 to the 1996 Regulations, an indication of the total sugar content in the form "total sugar content: Yg per 100 g", there being inserted in place of "Y" the content in grams of soluble solids in each hundred grams of the product, determined by refractometer at 20°C, the content shown being accurate to +/- 3 refractometric degrees.

(3) The particulars with which the product is required to be marked or labelled in accordance with paragraph 2(b) and (c) shall appear in the labelling of the food in the same field of vision as the name of the product and in clearly visible characters.

### **Manner of marking or labelling**

6. Regulations 35, 36(1) and (5) and 38 of the 1996 Regulations (which relate to the manner of marking or labelling of food) shall apply to the particulars with which a specified jam or similar product is required to be marked or labelled by regulation 5 of these Regulations as if they were particulars with which a food is required to be marked or labelled by the 1996 Regulations.

### **Penalties and enforcement**

7.-(1) Any person who contravenes or fails to comply with regulation 4 or 5 of these Regulations shall be guilty of an offence and shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.



(2) Rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal.

### **Amddiffyniad mewn perthynas ag allforion**

**8.** Mewn unrhyw achosion am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn bydd yn amddiffyniad i unrhyw berson a gyhuddir brofi -

- (a) bod y bwyd yr honnir bod tramgwydd wedi'i gyflawni mewn perthynas ag ef wedi'i fwriadu ar gyfer ei allforio i wlad a chanddi ddeddfwriaeth gyfatebol i'r Rheoliadau hyn a bod y bwyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno; a
- (b) yn achos allforio i Wladwriaeth AEE, bod y ddeddfwriaeth yn cydymffurfio â darpariaethau Cyfarwyddeb 2001/113/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud â ffrwythau, jamiau, jellïau a marmaledau, a phiwri castan a felyswyd, a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl(a).

### **Cymhwysio amryw o ddarpariaethau'r Ddeddf**

**9.**(1) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad y bydd unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu unrhyw Ran ohoni yn cael eu dehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn -

- (a) adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc.);
- (b) adran 3 (rhagdybiaeth bod bwyd wedi'i fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl);
- (c) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);
- (ch) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy), fel y mae'n gymwys at ddibenion adrannau 8, 14 neu 15 o'r Ddeddf;
- (d) adran 22 (amddiffyniad o gyhoeddi wrth gynnal busnes);
- (dd) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);
- (e) adran 33(1) (rhwystro swyddogion etc.);
- (f) adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection 1(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofynion o'r fath a grybwyllir yn adran 33(1)(b) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e) uchod;
- (ff) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e) uchod;
- (g) adran 35(2) a (3), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2)

(2) Each food authority shall enforce and execute these Regulations in its area.

### **Defence in relation to exports**

**8.** In any proceedings for an offence under these Regulations it shall be a defence for the person accused to prove -

- (a) that the food in respect of which the offence is alleged to have been committed was intended for export to a country which has legislation analogous to these Regulations and that the food complies with that legislation; and
- (b) in the case of export to an EEA State, that the legislation complies with the provisions of Directive 2001/113/EC of the European Parliament and the Council relating to fruit, jams, jellies and marmalades and sweetened chestnut purée intended for human consumption(a).

### **Application of various provisions of the Act**

**9.**(1) The following provisions of the Act shall apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act or any Part thereof shall be construed as a reference to these Regulations -

- (a) section 2 (extended meaning of sale etc.);
- (b) section 3 (presumption that food is intended for human consumption);
- (c) section 20 (offences due to fault of another person);
- (d) section 21 (defence of due diligence), as it applies for the purposes of section 8, 14 or 15 of the Act;
- (e) section 22 (defence of publication in the course of a business);
- (f) section 30(8) (which relates to documentary evidence);
- (g) section 33(1) (obstruction etc of officers);
- (h) section 33(2), with the modification that the reference to "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" shall be deemed to be a reference to any such requirement as is mentioned in section 33(1)(b) as applied by sub-paragraph (g) above;
- (i) section 35(1) (punishment of offences), insofar as it relates to offences under section 33(1) as applied by sub-paragraph (g) above;
- (j) section 35(2) and (3) insofar as it relates to offences under section 33(2) as applied by sub-

(a) OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.67, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor AEE Rhif 99/2002 (OJ Rhif L298, 31.10.2002, t.10).

(a) OJ No. L10, 12.1.2002, p.67, as adopted by the EEA Joint Committee Decision No. 99/2002 (OJ No. L298, 31.10.2002 p.10).

- fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (f) uchod;
- (ng) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); ac
- (h) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

- paragraph (h) above;
- (k) section 36 (offences by bodies corporate) and;
- (l) section 44 (protection of officers acting in good faith).

### Diwygio a dirymu

**10.**-(1) Dirymir Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg 1981(a) a Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg (Diwygio)1990(b), i'r graddau y mae pob un yn gymwys i Gymru.

(2) Hepgorir y cofnodion canlynol sy'n ymwneud â Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg 1981 (i'r graddau y mae'r Rheoliadau canlynol yn gymwys i Gymru) -

- (a) yn Rheoliadau Bwyd (Adolygu Cosbau) 1982(c), yn Atodlen 1;
- (b) yn Rheoliadau Bwyd (Adolygu Cosbau) 1985(ch), yn Atodlen 1, Rhan 1;
- (c) yng Ngorchymyn Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (Addasiadau Canlyniadol) (Lloegr a Chymru) 1990(d), yn Atodlen 1, Rhan 1, Atodlen 3, Rhan 1 ac Atodlen 6 ;
- (ch) yn Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Allforion) 1991(dd), yn Atodlen 1, Rhan 1;
- (d) yn Rheoliadau Bwyd (Esemptiadau'r Lluoedd) (Dirymu) 1992(e), yn Rhan 1 o'r Atodlen;
- (dd) yn Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(f), yn Atodlen 9.

(3) Yn Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995(ff) (i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru), yn Atodlenni 2, 3 a 7 yn lle'r geiriau "Directive 79/693/EEC" ym mhob man y maent yn ymddangos rhoddir y geiriau "Directive 2001/113/EC" relating to fruit jams, jellies and marmalades and sweetened chestnut purée intended for human consumption".

### Darpariaethau trosiannol

**11.** Mewn unrhyw achosion am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn bydd yn amddiffyniad i unrhyw berson a gyhuddir profi -

- (a) bod y bwyd dan sylw wedi'i farcio neu wedi'i labelu cyn 12 Gorffennaf 2004, a

### Amendments and revocations

**10.**-(1) The Jam and Similar Products Regulations 1981(a) and the Jam and Similar Products (Amendment) Regulations 1990(b), insofar as each applies to Wales, are revoked.

(2) The following entries relating to the Jam and Similar Products Regulations 1981 shall (insofar as the following Regulations apply to Wales) be omitted -

- (a) in the Food (Revision of Penalties) Regulations 1982(c), in Schedule 1;
- (b) in the Food (Revision of Penalties) Regulations 1985(d), in Schedule 1, Part I;
- (c) in the Food Safety Act 1990 (Consequential Modifications) (England and Wales) Order 1990(e), in Schedule 1, Part I, Schedule 3, Part I and Schedule 6;
- (d) in the Food Safety (Exports) Regulations 1991(f), in Schedule 1, Part 1;
- (e) in the Food (Forces Exemptions) (Revocations) Regulations 1992(g), in Part 1 of the Schedule
- (f) in the Food Labelling Regulations 1996(h) in Schedule 9.

(3) In the Miscellaneous Food Additives Regulations 1995(i) (insofar as they apply to Wales), in Schedules 2, 3 and 7 for the words "Directive 79/693/EEC" in each place where they appear there shall be substituted the words "Directive 2001/113/EC relating to fruit jams, jellies and marmalades and sweetened chestnut purée intended for human consumption".

### Transitional provisions

**11.** In any proceedings for an offence under these Regulations it shall be a defence for the person charged to prove that -

- (a) the food concerned was marked or labelled before 12th July 2004, and

---

(a) O.S. 1981/1063.  
 (b) O.S. 1990/2085.  
 (c) O.S. 1982/1727.  
 (ch) O.S. 1985/67.  
 (d) O.S. 1990/2486.  
 (dd) O.S. 1991/1476.  
 (e) O.S. 1992/2596.  
 (f) O.S. 1996/1499.  
 (ff) O.S. 1995/3187.

---

(a) S.I. 1981/1063.  
 (b) S.I. 1990/2085.  
 (c) S.I. 1982/1727.  
 (d) S.I. 1985/67.  
 (e) S.I. 1990/2486.  
 (f) S.I. 1991/1476.  
 (g) S.I. 1992/2596.  
 (h) S.I. 1996/1499.  
 (i) S.I. 1995/3187.

(b) na fyddai'r materion sy'n dramgwydd honedig wedi bod yn dramgwydd o dan Reoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg 1981 fel yr oeddent yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(b) the matters constituting the alleged offence would not have constituted an offence under the Jam and Similar Products Regulations 1981 as they stood immediately before the coming into force of these Regulations.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

2 Mawrth 2004

2nd March 2004

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(a) 1998 p.38.

---

(a) 1998 c.38.

## CYFANSODDIAD

**Colofn 1**  
**Disgrifiadau Neilltuedig****Colofn 2**  
**Cynnyrch jam penodedig neu gynnyrch tebyg penodedig**

## 1. Jam

Cymysgedd, y daethpwyd ag ef i ddwyster geliedig addas, o siwgrau, mwydion neu biwrî neu'r ddau o un math o ffrwyth neu fwy a dŵr, yn y fath fodd â bod maint y mwydion ffrwythau neu'r piwrî ffrwythau neu'r ddau ohonynt a ddefnyddiwyd am bob 1000 gram o'r cynnyrch gorffenedig heb fod yn llai na -

- (i) 250 gram yn achos cyrains cochion, cyrains duon, egroes, criafol, aeron helyg y môr neu gwins,
- (ii) 150 gram yn achos sinsir,
- (iii) 160 gram yn achos afalau cashiw,
- (iv) 60 gram yn achos ffrwyth y dioddefaint,
- (v) 350 gram yn achos unrhyw ffrwythau eraill.

## 2. Extra Jam

Cymysgedd, y daethpwyd ag ef i ddwyster geliedig addas, o

- siwgrau, mwydion annwysedig un math o ffrwyth neu fwy a dŵr, neu
- yn achos jam ecstra egroes neu jam ecstra di-had mafon, mwyr duon, cyrains duon, llus America, cyrains cochion, o siwgrau, piwrî annwysedig y ffrwyth hwnnw, neu gymysgedd o fwydion a phiwrî annwysedig y ffrwyth hwnnw, a dŵr,

ond ni chaniateir defnyddio'r ffrwythau canlynol wedi'u cymysgu ag eraill wrth weithgynhyrchu jam ecstra: afalau, gellyg, eirin careglynol, melonau, melonau dŵr, grawnwin, pwmpenni, cucumerau a thomatos.

A maint y mwydion ffrwythau neu biwrî ffrwythau neu'r ddau a ddefnyddiwyd am bob 1000 gram o'r cynnyrch gorffenedig heb fod yn llai na -

- (i) 350 gram yn achos cyrains cochion, cyrains duon, egroes, criafol, aeron helyg y môr neu gwins,
- (ii) 250 gram yn achos sinsir,
- (iii) 230 gram yn achos afalau cashiw,
- (iv) 80 gram yn achos ffrwyth y dioddefaint,
- (v) 450 gram yn achos unrhyw ffrwythau eraill.

## 3. Jelly

Cymysgedd sydd wedi'i gelio'n briodol o siwgrau a sudd ffrwythau neu echdynnyn dyfrllyd ffrwythau neu'r ddau ohonynt yn y fath fodd â bod maint y sudd ffrwythau neu'r echdynnyn ffrwythau dyfrllyd neu'r ddau ohonynt sy'n cael ei ddefnyddio am bob 1000 gram o'r cynnyrch gorffenedig heb fod yn llai na -

- (i) 250 gram yn achos cyrains cochion, cyrains duon, egroes, criafol, aeron helyg y môr neu gwins,

- (ii) 150 gram yn achos sinsir,
- (iii) 160 gram yn achos afalau cashiw,
- (v) 60 gram yn achos ffrwyth y dioddefaint,
- (v) 350 gram yn achos unrhyw ffrwythau eraill.

Cyfrifir y meintiau ym mharagraffau (i) i (v) uchod ar ôl didynnu pwysau'r dŵr a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r echdynion dyfrllyd.

#### 4. Extra Jelly

Cymysgedd sydd wedi'i gelio'n briodol o siwgrau a sudd ffrwythau neu echdynnyn dyfrllyd ffrwythau, neu'r ddau, ond ni chaniateir defnyddio'r ffrwythau canlynol wedi'u cymysgu ag eraill i weithgynhyrchu extra jelly: afalau, gellyg, eirin careglynol, melonau, melonau dŵr, grawnwin, pwmpenni, cucumerau a thomatos.

A maint y sudd ffrwythau a'r echdynnyn dyfrllyd ffrwythau, neu'r ddau, a defnyddiwyd am bob cilogram o'r cynnyrch gorffenedig heb fod yn llai na -

- (i) 350 gram yn achos cyrains cochion, cyrains duon, egroes, criafol, aeron helyg y môr neu gwins,
- (ii) 250 gram yn achos sinsir,
- (iii) 230 gram yn achos afalau cashiw,
- (iv) 80 gram ar gyfer ffrwyth y dioddefaint,
- (v) 450 gram yn achos unrhyw ffrwythau eraill.

Cyfrifir y meintiau ym mharagraffau (i) i (v) uchod ar ôl didynnu pwysau'r dŵr a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r echdynion dyfrllyd.

#### 5. Jelly marmalade

Cyfansoddiad marmalêd, fel y'i disgrifir isod ond lle nad yw'r cynnyrch yn cynnwys unrhyw sylwedd anhoddadwy ac eithrio o bosibl meintiau bach o bilion sydd wedi'u sleisio'n fân.

#### 6. Marmalade

Cymysgedd, y daethpwyd ag ef i ddwyster geliedig addas, o ddŵr, siwgrau a mwydion ffrwythau, piwri ffrwythau, sudd ffrwythau, pilion ffrwythau neu echdynnyn dyfrllyd ffrwythau neu unrhyw gyfuniad ohonynt, a phob un o'r rheini wedi'u sicrhau o ffrwythau sitrws, yn y fath fodd â bod maint y ffrwythau sitrws a ddefnyddiwyd am bob 1000 gram o'r cynnyrch gorffenedig heb fod yn llai na 200 gram, y mae nid llai na 75 gram ohono wedi'i gael o'r endocarp.

#### 7. Sweetened chestnut purée

Cymysgedd, y daethpwyd ag ef i ddwyster addas, o ddŵr, siwgr a chastanau a wnaed yn biwri, yn y fath fodd â bod maint y castanau a wnaed yn biwri ac a ddefnyddiwyd am bob 1000 gram o'r cynnyrch gorffenedig heb fod yn llai na 380 gram.

#### 8. X curd

Emwlsiad o fraster neu olew bwytadwy (neu'r ddau), siwgr, wŷ cyfan neu felynwŷ (neu'r ddau), ac unrhyw gyfuniad o ffrwythau, mwydion ffrwythau, piwri ffrwythau, sudd ffrwythau, echdynnyn dyfrllyd ffrwythau neu olewau naws ffrwythau, gyda chynhwysion bwytadwy eraill neu hebddynt, yn y fath fodd -

- (a) â bod maint y braster a'r olew a ddefnyddiwyd am bob 1000 gram o'r cynnyrch gorffenedig heb fod yn llai na 40 gram;
- (b) â bod maint yr wyau cyfan a'r melynwyau a ddefnyddiwyd am bob

**Colofn 1**  
**Disgrifiadau Neilltuedig**

**Colofn 2**  
**Cynnyrch jam penodedig neu gynnyrch tebyg penodedig**

1000 gram o'r cynnyrch gorffenedig heb fod yn llai na 6.5 gram o solidau melynwy; ac

- (c) â bod maint y ffrwythau, y mwydion ffrwythau, y piwrî ffrwythau, y sudd ffrwythau, yr echdynnyn dyfrllyd ffrwythau, ac olew naws y ffrwythau yn ddigon i nodweddu'r cynnyrch gorffenedig.

9. Lemon cheese

Bwyd sy'n cydymffurfio â'r disgrifiad yn eitem 8 uchod sy'n briodol ar gyfer ceuled lemon.

10. Y flavour curd

Emylsiad o fraster neu olew bwydadwy (neu'r ddau), siwgr, wŷ cyfan neu felynydd (neu'r ddau), a deunydd cyflasau gyda chynhwysion eraill neu hebddynt, yn y fath fodd -

- (a) â bod maint y braster a'r olew a ddefnyddiwyd am bob 1000 gram o'r cynnyrch gorffenedig heb fod yn llai na 40 gram;
- (b) â bod maint yr wyau cyfan a'r melynwyau a ddefnyddiwyd yn gyfryw ag y bydd pob 1000 gram o'r cynnyrch gorffenedig yn cynnwys nid llai na 6.5 gram o solidau melynwy; ac
- (c) â bod maint y deunydd cyflasau a ddefnyddiwyd yn ddigon i nodweddu'r cynnyrch.

11. Mincemeat

Cymysgedd o gyfryngau melysu, ffrwythau gwinwydd, pilion sitrws, siwet neu fraster cyfatebol a finegr neu asid asetig, gyda chynhwysion bwydadwy eraill neu hebddynt, yn y fath fodd -

- (a) â bod maint y ffrwythau gwinwydd a'r pilion sitrws a ddefnyddiwyd am bob 1000 gram o'r cynnyrch gorffenedig heb fod yn llai na 300 gram, y mae nid llai na 200 gram ohono yn cynnwys ffrwythau gwinwydd; a
- (b) â bod maint y siwet neu'r braster cyfatebol a ddefnyddiwyd am bob 1000 gram o'r cynnyrch gorffenedig heb fod yn llai na 25 gram.

At ddibenion y cofnod hwn ystyr "cyfryngau melysu" yw -

- (a) unrhyw gynnyrch siwgr a ddiffinnir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb 2001/111/EC(a) ynglŷn â siwgrau penodol a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl;
- (b) siwgr brown;
- (c) triogl cansen;
- (ch) mêl, fel y'i diffinnir yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2001/110/EC(b) ynglŷn â mêl.

**NODIADAU**

1. Yn achos cynnyrch a baratowyd o gymysgedd o fathau o ffrwythau, rhaid darllen colofn 2 o'r Atodlen hon fel petai'r meintiau isaf a bennir ar gyfer y gwahanol fathau o ffrwythau a grybwyllir neu y cyfeirir atynt ynddi wedi'u lleihau yn gymesur â meintiau cymharol y mathau o ffrwythau a ddefnyddiwyd.

2. Rhaid bod y cynhyrchion a ddisgrifir yn yr Atodlen hon yn cynnwys 60% neu fwy o sylwedd sych toddadwy,

(a) OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.53.

(b) OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.47.

fel y penderfynir arno drwy refractometr ar 20°C, ac eithrio -

- (a) y cynhyrchion hynny lle mae'r siwgrau ynddynt wedi'u hamnewid yn gyfan gwbl neu'n rhannol â melysyddion a ganiateir;
- (b) y cynhyrchion hynny sydd wedi'u labelu "reduced sugar" y caniateir iddynt gynnwys nid llai na 25% ac nid mwy na 50% o sylwedd sych toddadwy;
- (c) y cynhyrchion hynny a ddisgrifiwyd yn eitemau 8 i 11 y mae'n rhaid iddynt gynnwys 65% neu fwy o sylwedd sych toddadwy.

3. Rhaid darllen colofn 1 o'r Atodlen fel petai'r canlynol wedi'i roi yn lle "X" yn eitem 8 -

- (a) enw math penodol o ffrwyth; neu
- (b) y geiriau "mixed fruit"; neu
- (c) y gair "fruit" a mynegiad o'i flaen o nifer y mathau o ffrwyth a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r bwyd a ddisgrifir yng ngholofn 2 yr eitem.

4. Rhaid darllen colofn 1 o'r Atodlen hon fel petai'r canlynol wedi'i roi yn lle "Y" yn eitem 10 -

- (a) enw math penodol o ffrwyth; neu
- (b) y geiriau "mixed fruit".

CYNHWYSION YCHWANEGOL A GANIATEIR A  
THRINIAETHAU AWDURDODEDIG  
AR GYFER CYNHYRCHION A DDISGRIFIWYD  
YN EITEMAU 1 I 7 O ATODLEN 1

1. Caniateir defnyddio'r cynhwysion ychwanegol canlynol, i'r graddau a nodir isod:

- (a) mêl fel y'i diffinnir yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2001/110/EC dyddiedig 20 Rhagfyr 2001 ynglŷn â mêl(a): mewn pob cynnyrch fel amnewidyn cyfan neu rannol ar gyfer siwgrau;
- (b) sudd ffrwythau: dim ond mewn jam;
- (c) sudd ffrwythau sitrws: mewn cynhyrchion a gafwyd o fathau eraill o ffrwythau: dim ond mewn jam, extra jam, jelly a extra jelly;
- (ch) suddau ffrwythau coch: dim ond mewn extra jam a weithgynhyrchwyd o egroes, mefus, mafon, gwsberins, cyrains cochion, eirin a rhiwbob;
- (d) sudd betys coch: dim ond mewn jam a jelly a weithgynhyrchwyd o fefus, mafon, gwsberins, cyrains cochion ac eirin;
- (dd) olewau naws ffrwythau sitrws: dim ond mewn marmalade a jelly marmalade;
- (e) olewau a brasterau bwytadwy fel cyfryngau gwrth-ewynnu: mewn pob cynnyrch;
- (f) hylif pectin: mewn pob cynnyrch;
- (ff) pilion sitrws: mewn jam, extra jam, jelly a extra jelly;
- (g) dail Pelargonium odoratissimum: mewn jam, extra jam, jelly a extra jelly, pan fyddant wedi'u gwneud o gwins;
- (ng) gwirodydd, gwin a gwin liqueur, cnau, perlaysiau, fanila ac echdynion fanila: mewn pob cynnyrch;
- (h) fanilin: mewn pob cynnyrch;
- (i) unrhyw sylwedd a ganiateir yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 89/107/EEC ar gyd-ddynesu cyfreithiau Aelod-wladwriaethau ynghylch ychwanegion bwyd yr awdurdodwyd eu defnyddio mewn bwydydd a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl(b).

2. Caniateir i ffrwythau, mwydion ffrwythau, piwrî ffrwythau ac echdynnyn dyfrllyd ffrwythau gael eu trin yn y ffyrdd canlynol:

- (a) eu twymo, eu hoeri neu eu rhewi;
- (b) eu sychrewi;
- (c) eu dwysáu, i'r graddau ei bod yn dechnegol bosibl;
- (ch) ac eithrio mewn perthynas â extra jam neu extra jelly, eu sylffito, hynny yw caniateir defnyddio sylffwr deuocsid (E 220) neu ei halwynau (E 221, E 222, E 223, E 224, E 226 ac E 227) yn gyfrwng cymorth i weithgynhyrchu ar yr amod nad yw'r cyfanswm ohono yn uwch na'r uchafswm cynnwys o ran sylffwr deuocsid a bennwyd yng Nghyfarwyddeb 92/2/EC(c).

3. Caniateir i fricyll ac eirin sydd i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu jam gael eu trin â phrosesau sychu eraill ar wahân i sych-rewi.

4. Yn ychwanegol caniateir i bilion sitrws gael eu preserfio mewn heli.

---

(a) OJ Rhif L.010, 12/01/2002, t.47.

(b) OJ Rhif L.040, 11/02/1989, t.27.



## SCHEDULE 1

Regulation 2(1)

### COMPOSITION

**Column 1**  
**Reserved Descriptions**

**Column 2**  
**Specified jam or similar product**

1. Jam

A mixture, brought to a suitable gelled consistency, of sugars, the pulp or purée or both of one or more kinds of fruit and water, such that the quantity of fruit pulp or fruit purée or both used for every 1000 grams of the finished product is not less than -

- (i) 250 grams in the case of redcurrants, blackcurrants, rosehips, rowanberries, sea buckthorns or quinces,
- (ii) 150 grams in the case of ginger,
- (iii) 160 grams in the case of cashew apples,
- (iv) 60 grams in the case of passion fruit,
- (v) 350 grams in the case of any other fruit.

2. Extra Jam

A mixture, brought to a suitable gelled consistency, of -

- sugars, the unconcentrated pulp of one or more kinds of fruit and water, or
- in the case of rosehip extra jam or seedless raspberry, blackberry, blackcurrant, blueberry or redcurrant extra jam, of sugars, the unconcentrated purée of that fruit, or a mixture of the unconcentrated pulp and purée of that fruit, and water,

but the following fruits may not be used mixed with others in the manufacture of extra jam: apples, pears, clingstone plums, melons, watermelons, grapes, pumpkins, cucumbers and tomatoes. The quantity of fruit pulp or fruit purée or both used for every 1000 grams of the finished product being not less than -

- (i) 350 grams in the case of redcurrants, blackcurrants, rosehips, rowanberries, sea buckthorns or quinces,
- (ii) 250 grams in the case of ginger,
- (iii) 230 grams in the case of cashew apples,
- (iv) 80 grams in the case of passion fruit,
- (v) 450 grams in the case of any other fruit.

3. Jelly

An appropriately gelled mixture of sugars and fruit juice or aqueous extract of fruit or both such that the quantity of fruit juice or aqueous extract of fruit or both used for every 1000 grams of the finished product is not less than -

- (i) 250 grams in the case of redcurrants, blackcurrants, rosehips, rowanberries, sea buckthorns or quinces,
- (ii) 150 grams in the case of ginger,

- (iii) 160 grams in the case of cashew apples,
- (iv) 60 grams in the case of passion fruit,
- (v) 350 grams in the case of any other fruit. The quantities in paragraphs (i) to (v) above are calculated after deduction of the weight of water used in preparing the aqueous extracts.

#### 4. Extra Jelly

An appropriately gelled mixture of sugars and fruit juice or aqueous extract of fruit, or both, but the following fruits may not be used mixed with others in the manufacture of extra jelly: apples, pears, clingstone plums, melons, watermelons, grapes, pumpkins, cucumbers and tomatoes.

The quantity of fruit juice and aqueous extract of fruit, or both, used for every kilogram of the finished product being not less than -

- (i) 350 grams in the case of redcurrants, blackcurrants, rosehips, rowanberries, sea buckthorns or quinces,
- (ii) 250 grams in the case of ginger,
- (iii) 230 grams in the case of cashew apples,
- (iv) 80 grams for passion fruit,
- (v) 450 grams in the case of any other fruit.

The quantities in paragraphs (i) to (v) above are calculated after deduction of the weight of water used in preparing the aqueous extracts.

#### 5. Jelly marmalade

The composition of marmalade, as described below but where the product contains no insoluble matter except possibly for small quantities of finely sliced peel.

#### 6. Marmalade

A mixture, brought to a suitable gelled consistency, of water, sugars and fruit pulp, fruit purée, fruit juice, fruit peel or aqueous extract of fruit or any combination thereof, in every case obtained from citrus fruit, such that the quantity of citrus fruit used for every 1000 grams of the finished product is not less than 200 grams, of which not less than 75 grams is obtained from the endocarp.

#### 7. Sweetened chestnut purée

A mixture brought to a suitable consistency, of water, sugar and puréed chestnuts, such that the quantity of puréed chestnuts used for every 1000 grams of the finished product is not less than 380 grams.

#### 8. X curd

An emulsion of edible fat or oil (or both), sugar, whole egg or egg yolk (or both), and any combination of fruit, fruit pulp, fruit purée, fruit juice, aqueous extract of fruit or essential oils of fruit, with or without other edible ingredients, such that -

- (a) the quantity of fat and oil used for every 1000 grams of the finished product is not less than 40 grams;
- (b) the quantity of whole and egg yolk used for every 1000 grams of the finished product is not less than 6.5 grams of egg yolk solids; and
- (c) the quantity of fruit, fruit pulp, fruit purée, fruit juice, aqueous extract of fruit, and essential oil of fruit is sufficient to characterise the finished product.

#### 9. Lemon cheese

A food conforming to the description in item 8 above appropriate for lemon curd.

**Column 1**  
**Reserved Descriptions**

**Column 2**  
**Specified jam or similar product**

10. Y flavour curd
- An emulsion of edible fat or oil (or both), sugar, whole egg or egg yolk (or both), and flavouring material with or without other edible ingredients, such that -
- (a) the quantity of fat and oil used for every 1000 grams of the finished product is not less than 40 grams;
  - (b) the quantity of whole egg and egg yolk used is such that every 1000 grams of the finished product contains not less than 6.5 grams of egg yolk solids; and
  - (c) the quantity of flavouring material used is sufficient to characterise the product.
11. Mincemeat
- A mixture of sweetening agents, vine fruits, citrus peel, suet or equivalent fat and vinegar or acetic acid, with or without other edible ingredients, such that -
- (a) the quantity of vine fruits and citrus peel used for every 1000 grams of the finished product is not less than 300 grams, of which not less than 200 grams consists of vine fruits; and
  - (b) the quantity of suet or equivalent fat used for every 1000 grams of the finished product is not less than 25 grams.
- For the purposes of this entry "sweetening agents" means -
- (a) any sugar product defined in the Annex to Directive 2001/111/EC(a) relating to certain sugars intended for human consumption;
  - (b) brown sugar;
  - (c) cane molasses;
  - (d) honey, as defined in Council Directive 2001/110/EC(b) relating to honey.

**NOTES**

1. In the case of a product prepared from a mixture of types of fruit, column 2 of this Schedule shall be read as if the minimum quantities specified for the various types of fruit mentioned or referred to therein were reduced in proportion to the relative quantities of the types of fruit used.

2. The products described in this Schedule must have a soluble dry matter content of 60% or more as determined by refractometer at 20°C except for -

- (a) those products in respect of which sugars have been wholly or partially replaced by permitted sweeteners;
- (b) those products labelled "reduced sugar" which may have a soluble dry matter content of not less than 25% and not more than 50%;
- (c) those products described in items 8 to 11 which must have a soluble dry matter content of 65% or more.

3. Column 1 of this Schedule shall be read as if for "X" in item 8 there were substituted -

- (a) the name of a particular type of fruit; or
- (b) the words "mixed fruit"; or
- (c) the word "fruit" preceded by an indication of the number of types of fruit used in the preparation of the food described in column 2 of the item.

---

(a) OJ No. L10, 12.1.2002, p.53.

(b) OJ No.L10, 12.1.2002, p.47.

4. Column 1 of this Schedule shall be read as if for "Y" in item 10 there were substituted -
- (a) the name of a particular type of fruit; or
  - (b) the words "mixed fruit".

## SCHEDULE 2

Regulation 2(1) and (2)

### PERMITTED ADDITIONAL INGREDIENTS AND AUTHORISED TREATMENTS FOR PRODUCTS DESCRIBED IN ITEMS 1 TO 7 OF SCHEDULE 1

1. The following additional ingredients may be used, to the extent stated below:

- (a) honey as defined in Council Directive 2001/110/EC of 20 December 2001 relating to honey(a): in all products as a total or partial substitute for sugars;
- (b) fruit juice: only in jam;
- (c) citrus fruit juice: in products obtained from other types of fruit: only in jam, extra jam, jelly and extra jelly;
- (d) red fruit juices: only in jam and extra jam manufactured from rosehips, strawberries, raspberries, gooseberries, redcurrants, plums and rhubarb;
- (e) red beetroot juice: only in jam and jelly manufactured from strawberries, raspberries, gooseberries, redcurrants and plums;
- (f) essential oils of citrus fruits: only in marmalade and jelly marmalade;
- (g) edible oils and fats as anti-foaming agents: in all products;
- (h) liquid pectin: in all products;
- (i) citrus peel: in jam, extra jam, jelly and extra jelly;
- (j) leaves of *Pelargonium odoratissimum*: in jam, extra jam, jelly and extra jelly, where they are made from quince;
- (k) spirits, wine and liqueur wine, nuts, aromatic herbs, spices, vanilla and vanilla extracts: in all products;
- (l) vanilline: in all products;
- (m) any substance permitted pursuant to Council Directive 89/107/EEC on the approximation of the laws of Member States concerning food additives authorised for use in foodstuffs intended for human consumption(b).

2. Fruit, fruit pulp, fruit purée and aqueous extract of fruit may be treated in the following ways:

- (a) heated, chilled or frozen;
- (b) freeze-dried;
- (c) concentrated, to the extent that is technically possible;
- (d) except in relation to extra jam or extra jelly, sulphited, that is to say sulphur dioxide (E 220) or its salts (E 221, E 222, E 223, E 224, E 226 and E 227) may be used as an aid to manufacture provided that the maximum sulphur-dioxide content laid down in Directive 95/2/EC(c) is not exceeded.

3. Apricots and plums to be used in the manufacture of jam may also be treated by other drying processes apart from freeze-drying.

4. Citrus peel may additionally be preserved in brine.

---

(a) OJ No. L.10, 12.01.2002, p.47.

(b) OJ No. L.40, 11.02.1989, p.27.

(c) OJ No. L.61, 18.03.95, p.1.





---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2004 Rhif 553 (Cy.56)**

**BWYD, CYMRU**

Rheoliadau Cynhyrchion Jam a  
Chynhyrchion Tebyg (Cymru)  
2004

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2004 No. 553 (W.56)**

**FOOD, WALES**

The Jam and Similar Products  
(Wales) Regulations 2004

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£4.00**

W22/3/04

ON

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090886-4



9 780110 908861